**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1053
Ein cyf/Our ref DET/02863/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

16 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau am Ddeiseb P-05-1053 cyn ystyriaeth ffurfiol y Pwyllgor Deisebiadau.

Mae dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â'r pandemig Covid-19 wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn ofalus ac yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan SAGE a Sefydliad Iechyd y Byd.

Cafodd cyfyngiadau lleol a'r cyfnod atal cenedlaethol dros bythefnos eu cyflwyno i arbed bywydau ac i sicrhau y gall y GIG ymdopi. Bu achosion o'r coronafeirws yn cynyddu'n gyflym yng Nghymru wrth i'r feirws ddeffro ar gyfer y gaeaf. Er bod y mesurau cenedlaethol a lleol a drefnwyd ledled Cymru wedi helpu i gadw rheolaeth ar ledaeniad yr haint, roedd consensws cynyddol bod angen rhagor o weithredu. Bu'n rhaid ystyried effaith gronnol y camau y byddwn yn eu cymryd. Effaith gyfun gweithredu niferus sy'n gwneud y gwahaniaeth, yn hytrach na risg un gweithgarwch.

Mae hyn yn galw am ymdrech genedlaethol, sy'n golygu cyfaddawdu ac ymrwymiad gan bawb. Roedd y gwasanaethau a oedd yn hanfodol i warchod iechyd y cyhoedd yn ystod y cyfyngiadau symud byr wedi aros ar agor. Nid oedd cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn cael eu hystyried yn hanfodol ar yr adeg hynny, ac roedd yn parhau yn bosibl i ymarfer yn yr awyr agored yn ystod y cyfnod atal byr.

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer cyfnodau atal pellach. Pe byddai angen fodd bynnag, byddai ein dull gweithredu wrth ystyried y camau sydd eu hangen i reoli lledaeniad y feirws yn cael ei benderfynu gan yr amgylchiadau ar y pryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Amlinellodd y Prif Weinidog y mesurau cenedlaethol newydd yn dilyn y cyfnod atal cenedlaethol, gan gadarnhau y gallai campfeydd a chyfleusterau hamdden ail-agor o'r 9 Tachwedd 2020.  Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y ddolen isod.

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-covid-19-mesurau-cenedlaethol-newydd-i-gymru

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism